# Polisi Bwyd Iach Cynaliadwy Prifysgol Abertawe



**Cwmpas:** Mae'r policy hwn yn cwmpasu mannau arlwyo, peiriannau gwerthu a bwyd a ddarperir ar y campws gan gwmni arlwyo Chartwells ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r bwyd ym Mhrifysgol Abertawe yn cael ei ddarparu gan gwmni arlwyo Chartwells. Ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau bwyd cynaliadwy ac iach, bwydlenni ar y campws, dilynwch @swanseaunifood ar Instagram ac @Swansea_UniFood ar Twitter ac ewch i https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/gwasanaethau-arlwyo/llefydd-i-fwyta-ar-gampws/ i ddysgu rhagor.

Yn unol â Chynllun Strategol y Prifysgolion, mae cwmni Chartwells Catering a Phrifysgol Abertawe yn nodi ystyriaethau amgylcheddol, iechyd, moesegol a chymdeithasol mewn cynhyrchion a gwasanaethau a ddarparwn. Mae polisi bwyd cynaliadwy'r Brifysgol yn mynnu bod safonau cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori mewn tendrau a chontractau gyda chontractwyr allanol (e.e. cwestiynau mewn tendrau arlwyo diweddar gan y brifysgol). Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at economïau lleol a bywoliaethau cynaliadwy, gan osgoi effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, cefnogi lles anifeiliaid a darparu buddion iechyd a chymdeithasol. Rydym yn ymdrechu i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu'n erbyn cyflenwyr lleol llai yn y broses gaffael ac wrth lunio manylebau.

Lluniodd Prifysgol Abertawe ei Pholisi Bwyd Cynaliadwy cyntaf yn 2010. Mae'r ddogfen hon yn 2024 yn diweddaru'r polisi ac yn cyfeirio at yr ymrwymiadau a'r perfformiad perthnasol wrth gyflawni arlwyo iach cynaliadwy. Mae'r polisi yn cynnwys yr holl fannau bwyd, peiriannau gwerthu a bwyd a ddarperir yn y Brifysgol.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn cyd-fynd â Strategaeth Gynaliadwyedd gyffredinol Prifysgol Abertawe ac mae'n helpu i gyflawni amcanion y strategaeth honno. Mae'n

darparu'r fframwaith i Brifysgol Abertawe ategu'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau strategol canlynol:

**WE 5:** Bydd arlwyo yn y Brifysgol yn lleihau effeithiau amgylcheddol a moesegol eu cynhyrchion a'u gwasanaethau ac yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn seiliedig ar ddata rheoli, polisïau a gweithdrefnau cynaliadwyedd ac adborth gan gwsmeriaid, a bydd yn cyhoeddi gwybodaeth i gwsmeriaid am effeithiau eu cynhyrchion a'u gwasanaethau

**CE 3:** Cwmpas 3: Cyflawni (ar gyfartaledd) gostyngiad o 2.5% flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn allyriadau cwmpas 3, 50% erbyn 2035 (35% erbyn 2030)

**CE 4:** Datblygu rhaglen waith ar gyfer diffinio a chyflawni is-dargedau a rhaglenni monitro cwmpas 3 gan gynnwys: teithio busnes, cymudo gan staff a myfyrwyr, gwastraff, dŵr, bwyd a diod, a chaffael

**WE 43:** Cydlynu camau nesaf Safon Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru – ar gyfer darparu gweithle iach

Bydd ymrwymiadau a thargedau'r polisi a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu hadolygu'n flynyddol drwy adolygiad rheoli amgylcheddol ISO 14001 a'u hadrodd i Bwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol. Bydd y cynllun gweithredu arlwyo'n cael ei fonitro'n fisol gan y gweithgor arlwyo iach cynaliadwy sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys contractwyr arlwyo, y tîm cynaliadwyedd, cynrychiolwyr myfyrwyr a thimau perthnasol o'r adran ystadau a gwasanaethau campws).

Polisi Prifysgol Abertawe a'r contractwr arlwyo Chartwells yw:

**Masnach Deg**

a. Darparu ystod o gynhyrchion Masnach Deg, gan gynnwys te, coffi a bisgedi, gan roi dewis i'n cwsmeriaid
b. Gofyn i'n cyflenwyr ddarparu eu polisi o ran Masnach Deg a rhestr o'u nwyddau Masnach Deg er mwyn i ni sicrhau eu bod ar gael i'n cwsmeriaid
c. Cynnal ein statws Masnach Prifysgol Deg

**Gwastraff ac ailgylchu**

a. Lleihau swm y bwyd sy'n cael ei wastraffu drwy reoli dognau, datblygu'r fwydlen a ryseitiau, ailddosbarthu bwyd dros ben a gweithgareddau compostio
b. Defnyddio contract ailgylchu gwastraff y Brifysgol yn llawn a sicrhau'n weithredol y caiff y canlynol eu hailgylchu: caniau, cardfwrdd, plastig, papur, gwydr, bwyd, cylchgronau a phapurau newydd
c. Sicrhau bod olew gwastraff yn cael ei ailgylchu drwy ei droi'n fiodiesel.

d. Ceisio lleihau swm y pecynnu a ddefnyddir wrth werthu eitemau ac yn y gadwyn gyflenwi

**Bwyd Heb Gig**

a. Datblygu opsiynau cynhwysfawr ar gyfer bwyd ar sail planhigion ar y campws a chreu cyfleoedd ymgysylltu cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr a staff.
b. Gig drwy raglen ymgysylltu SWell

**Wyau a Llaeth**

a. Defnyddio wyau maes, ffres yn unig wrth arlwyo
b. Cefnogi ffermwyr llaeth lleol drwy brynu llaeth ffres lleol

**Cig a Physgod**

a. Blaenoriaethu lles anifeiliaid wrth wneud penderfyniadau ynghylch prynu
b. Prynu pysgod gan gyflenwyr lleol sy'n cefnogi dulliau pysgota cynaliadwy
c. Defnyddio cyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol a gofyn am ardystio gan y Cyngor hwnnw pryd bynnag y bo modd

**Cynhyrchion Tymhorol a Lleol**

a. Ymgysylltu â chymuned y campws wrth dyfu bwyd ar y campws
b. Cyrchu ac arddangos cynnyrch tymhorol a lleol drwy ddatblygu bwydlenni, llunio gwybodaeth am darddiad, gwaith hyrwyddo a marchnata

**Dŵr a Diodydd**

a. Darparu dŵr yfed am ddim yn ein holl gyfleusterau gwerthu bwyd a diod
b. Lleihau'r defnydd o ddiodydd mewn poteli untro
c. Lleihau defnydd o gwpanau dŵr tafladwy ar y campws

**Iechyd a lles**

a. Cynnig a hyrwyddo ystod gynyddol o gynigion bwyd iach
b. Defnyddio llai o halen sodiwm
c. Mabwysiadu dulliau coginio sy'n defnyddio llai o halen, braster, olew, ac ychwanegion a chadwolion artiffisial
d. Cynnig ystod gynyddol o ffrwythau a llysiau ffres

**Cyfathrebu a Phartneriaethau**

a. Cyfleu ein hymrwymiad i weini bwyd lleol, cynaliadwy i'n holl gwsmeriaid drwy arweiniad hyrwyddol, gwybodaeth am gynhyrchion ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth

b. Gweithio gyda chyflenwyr i hyrwyddo'r agenda bwyd cynaliadwy
c. Cynnal achrediad 1 seren dan Gynllun y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy (SRA) a cheisio gwella ac ehangu'r cynllun i gyflawni 2-3 seren yn y rhan fwyaf o'r mannau arlwyo dros amser.
d. Sicrhau bod manylebau tendrau arlwyo a pherfformiad contractau'n cyd-fynd â strategaeth gynaliadwyedd y Brifysgol a'r polisi bwyd iach cynaliadwy hwn

Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws - Greg Ducie

Rheolwr Cynaliadwyedd -Teifion Maddocks

Rheolwr Chartwell's Catering ym Mhrifysgol Abertawe - Neil Griffiths

Cofnod o newidiadau:

| Rhesymau dros y newid | Dyddiad |
|---|---|
| Cynnwys y cofnod hwn o newidiadau | 07/2017 |
| Diweddaru teitl y polisi i gyd-fynd ag agenda Lles y Brifysgol "Polisi Bwyd Iechyd Cynaliadwy | 07/2017 |
| Cynnwys Cynllun Gweithredu Arlwyo Iach Cynaliadwy | 07/2017 |
| Ychwanegu cwmpas y polisi | 07/2017 |
| Dim newidiadau i'r polisi | 04/2019 |
| Diweddariadau i adlewyrchu contract arlwyo Chartwell's ac i gyd-fynd â'r strategaeth gynaliadwyedd ddiweddaraf | 08/2022 |
| Adolygwyd y polisi gan ychwanegu rhagor o opsiynau bwyd ar sail planhigion at y bwydlenni, llifoedd gwastraff i gynnwys tetrapak, a dolenni wedi'u diweddaru i'r Cynllun Gweithredu Arlwyo a'r tudalennau cynaliadwyedd yn y cyfryngau cymdeithasol. | 06/2024 |

**Cyfeiriadau:**

*Dolen i gynllun gweithredu Bwyd Iach Cynaliadwy*

*Cymerwch ran mewn Cynaliadwyedd a Tyfu Tawe*

*Gweithgareddau Diweddar*

*Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth*

*https://en-gb.facebook.com/SwanseaSWell/*

*https://www.instagram.com/swanseasustainability/*

*Cyrchu Cyfrifol | Compass Group y DU ac Iwerddon*

*Ein Haddewid Lles | Compass Group y DU ac Iwerddon*

*Ein Haddewid Hinsawdd | Compass Group y DU ac Iwerddon*

*Ein Haddewid Cymdeithasol | Compass Group y DU ac Iwerddon*

*Ymrwymiad i Werth Cymdeithasol ac Ymrwymiadau Corfforaethol | Compass Group y DU ac Iwerddon*